

CYNGOR CYMUNED LLANDYGAI

LLANDYGAI COMMUNITY COUNCIL

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
Clerk and Chief Financial Officer
Donna Watts
Rhif Ffôn: 01248 602131
Ebost: CyngorLlandygai@ogwen.org

26 Stryd Fawr
Bethesda
Gwynedd
LL57 3AE

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor a gynhaliwyd yng Nghanolfan Tregarth
Nos Iau 18 Ebrill 2019 am 18.30

PRESENNOL:

Y Cynghorydd Dafydd Owen

Y Cynghorydd Mair Owen Pierce

Y Cynghorydd Mair Leverett

Y Cynghorydd Huw P Jones

Y Cynghorydd Angharad Williams

Y Cynghorydd Iwan Hywel

Y Cynghorydd Dafydd Roberts

Y Cynghorydd Jacob Milner

1. Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan yr Is-gadeirydd y Cyng. Iwan Hywel.

Ymddiheuriadau gan y Cyng. Gwen Griffith, Richard Fraser-Williams, Mair Jones a Gabrielle Wyn.

2. Cofnodion

Penderfynwyd: Derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Mawrth 2019.

3. Materion yn codi o'r cofnodion

3.1 Llwybr beics pentref Llandygai – Cyngor Gwynedd wedi ymateb. Y Clerc wedi gofyn iddynt ail-linellu'r llwybr. Y Clerc i ofyn am diweddariad.

3.2 Ffens wedi disgyn ar y Lôn Las wrth gerdded tuag at y twnel. Cadarnhawyd fod yr gwaith wedi gael ei gwblhau, ond wedi derbyn cwyn gan aelod o'r cyhoedd bod yr contractwyr wedi gadael llanast. Y Cyng. Dafydd Owen i ymweld a'r safle, ac hysbysu Cyngor Gwynedd pe bai'r angen.

3.3 Lloches bws yn mynedfa pentref Llandygai – dim angen cais cynllunio ar gyfer gosod y lloches. Yn dilyn danfon llythyrau i cartrefi cyfagos, wedi derbyn sel bendith eu bod yn hapus i'r lloches gael ei leoli yno. Cyng. Richard Fraser-Williams i wneud ymholiadau prisiau. Y Clerc i gael diweddariad gan Cyngor Gwynedd ar y sylfaen concrit arfaethedig.

3.4 Goleuadau stryd Mynydd Llandygai – problemau gyda rhai ohonynt:

Tan y Bwlch – golau yn diffodd am 9.30yh

Llwybr Main – golau ddim yn gweithio

Llwybr Main – y golau sydd ar yr arwydd 'Ildiwch' yn fflachio.

Y Clerc i gael diweddariad.

- 3.5** Problemau gor-yrru yn Mynydd Llandygai ac wrth Ysgol Bodfeurig – Nodwyd fod Cyngor Gwynedd wedi lleoli 3 ‘monitor’ ar hyd y ffordd, disgwyl canlyniadau’r arolwg.
- 3.6** Diffibriliwr Tregarth – y Clerc wedi archebu 3 arwydd, a nodwyd y bydd yr hyfforddwr yn eu gosod cyn y noson hyfforddiant ar y 29fed o Fai 2019.
- 3.7** Y Clerc wedi derbyn ebost gan yr Adran Cynllunio ynglyn a gosod diffibriliwr yn Neuadd Talgai, Llandygai. Nodwyd bod ddim yn bosib eu leoli yno oherwydd ei fod yn adeilad rhestredig. Nid oes yno leoliadau eraill addas o fewn yr ardal. Y Clerc i wneud ymholiadau ychwanegol gyda’r Adran Cynllunio i weld os oes opsiynau eraill (e.e lleoli’r diffib wrth ochr, ond nid ar yr adeilad).
- 3.8** Llwybr o Parc fynny at Lôn y Grug – Y Cyng. Dafydd Owen wedi cyfarfod gyda Cyng. Richard Fraser-Williams ar y safle, ac wedi cysylltu gyda swyddog yn Cyngor Gwynedd ynglyn a gael arwyddion.
- 3.9** Wi-Fi Cymunedol Bwthyn Ogwen – drafft costau – wedi’i drafod o dan eitem 4.
- 3.10** Bin Halen newydd yn Bro Syr Ifor – disgwyl diweddariad.
- 3.11** Carreg yn rhydd ger Min y Coed, Llandygai – Cyng. Dafydd Owen i rhoi diweddariad.

4. Gohebiaeth

Pawb wedi cael copi o’r rhestr ‘Crynodeb o ohebiaeth Ebrill 2019’

Cyflwynwyd: Ymddiswyddiad Cyng. Mair Jones – Y Clerc i hysbysu Raymond Harvey, Cyngor Gwynedd ac i ddilyn y broses perthnasol. Y Clerc i lunio llythyr/cerdyn i ddiolch Cyng. Mair Jones am ei gwaith caled.

Cyflwynwyd: Ebost gan Adran Cynllunio – Gosod diffibriliwr ar Neuadd Talgai – wedi drafod uchod o dan eitem 3.6.

Cyflwynwyd: Cynllun Wifi Bwthyn Ogwen – Cytunwyd nid yw’r Cyngor am fynd yn ei flaen gyda’r prosiect oherwydd y costau cysylltiedig. Y Clerc i ymateb i Partneriaeth Ogwen, a cynnig eu bod yn cysylltu gyda’r Parc Genedlaethol ac yr Ymddieriedolaeth Genedlaethol.

Cyflwynwyd: Cyfraniad eich cyngor at wefan Deall Lleoedd Cymru – penderfynwyd ail-gyflwyno’r ddogfen yn yr cyfarfod nesaf. Y Clerc i atgoffa’r aelodau.

5. Gwaith y mis

- 5.1** Cyng. Dafydd Owen i wneud trefniadau torri llwybrau gyda’r contractwr presennol G Williams. Y Clerc i danfon ebost i’r Barterniaeth i hysbysu bod yr Cyngor yn awyddus iawn i gyfuno’r gwaith torri llwybrau gyda Cyngor Cymuned Bethesda a Llanllechid, a gofyn i’r Bartneriaeth i wneud ymholiadau pellach gyda’r ddau gyngor cymuned.
- 5.2** Nodwyd Cyng. Dafydd Roberts fod twll mawr wedi ymddangos ar Lon y Wern - Cyng. Dafydd Owen wedi hysbysu Cyngor Gwynedd.
- 5.3** Nodwyd Cyng. Angharad Williams fod yno dau fag bin du wedi gael ei adael ger cyffordd Craig y Pandy, Tregarth. Y Clerc i ymweld ar safle ac hysbysu Cyngor Gwynedd os fydd angen.
- 5.4** Adroddwyd fod un o drigolion ardal Talybont yn glanhau ardal Talybont a Llandygai yn wirfoddol, y Clerc i wneud ymholiadau gyda Cyngor Cymuned Llanllechid.

5.5 Adroddwyd fod y ffordd ar waelod allt St Anns yn warthus – nodwyd Cyng. Dafydd Owen bod yr Cyngor yn disgwyl am waith cynnal yn gysylltiedig gyda Dwr Cymru yn y dyfodol agos.

5.6 Cysylltwyd a Cyng. Jacob Milner ynglyn a'r ymgyrch gael gwared o 'Himalayan Balsam – Balsam Bash' – y Cyng. i ofyn wrth yr unigolyn i danfon unrhyw deunydd hyrwyddo, poster i ayyb i'r Clerc, ac y Clerc i hyrwyddo ar eu rhan drwy facebook.

6. Adroddiadau'r Cynrychiolwyr

Canolfan Tregarth – Mae'r llawr yn yr ystafell gyfarfod angen ei gwblhau. Cadarnhawyd eu bod wedi gorfod archebu boiler newydd.

Partneriaeth Ogwen – adroddiad ysgrifenedig wedi'i dderbyn, yn y rhestr Gohebiaeth.

Neuadd Talgai – boreau coffi wedi bod yn llwyddiannus – elw at cinio Nadolig yr henoed.

Ysgol Tregarth – trefnu i gael swyddog tu allan i'r Ysgol – problemau gyda parcio dwbl – pryderon ynglyn a iechyd a diogelwch.

7. Penodi Archwilydd Mewnol

Y Cyngor wedi cytuno i benodi'r Uned Archwilio, Cyngor Gwynedd fel Archwilydd Mewnol.

8. Adroddiad Ariannol, Rheoli Risg a Gweinyddu

8.1. Adroddwyd beth oedd y ffigyrau yn y banc ar ddiwedd mis Mawrth.

8.2. Rheoli Risg: Dim i'w ystyried ar hyn o bryd

9. Taliadau

Awdurdodwyd y canlynol

| | |
|-------------------------|-----------|
| Partneriaeth Ogwen | £5,793.61 |
| Humphreys Signs & Print | £126.00 |
| Zurich Municipal | £473.51 |
| Cyngor Gwynedd | £5.00 |

10. Penderfyniadau Cynllunio

C15/0966/16/MG

Tir ger Pentwmpath, Llandygai
Cais materion a gadwyd yn ôl ar gyfer
codi 15 tŷ gan gynnwys 5 tŷ
fforddiadwy
Penderfyniad: Holl ymgynghoriadau
drosodd

C18/0571/16/HY

Llys y Gwynt, Bangor
Arwyddion amrywiol wedi ei goleuo
ac heb eu goleuo
Penderfyniad: Holl ymgynghoriadau
drosodd

| | |
|-----------------------|---|
| NP3/16/28 | Ogwen Falls Snack Bar, Nant Ffrancon, Bethesda Codi monopelyn 15m o uchder wedi'i gladio â choed Penderfyniad: Cais wedi ei gofrestru |
| C18/0169/16/CR | Fferm Cororion, Lon y Wern, Tregarth Dymchwel estyniad unllawr presennol (ôl-weithredol) a gosod estyniad yn ei le Penderfyniad: Cais wedi ei gofrestru |
| C18/0767/25/LL | Coed Wern, Glasinfryn Safle arfaethedig ar gyfer 40 llety, adeilad derbynfa, a chreu 2 nodweddion dŵr. Ynghyd a ffurfio ffyrdd mynediad cysylltiedig a meysydd parcio, tirweddu a gwaith cysylltiedig eraill. Penderfyniad: Holl ymghynghoriadau drosodd |
| C18/0422/16/LL | Y Wern, 2, Pentref Llandygai Apel – Codi ty deulawr, llecynau parcio ynghyd ac offer trin carthion Penderfyniad: Disgwyl am canlyniad apel |
| C19/0105/16/LL | Clwb Criced Bangor, Ffordd Llandygai, Llandygai Dymchwel yr adeilad presennol sy'n cael ei ddefnyddio gan y clwb criced a chodi adeilad newydd yn ei le Penderfyniad: Cais wedi'i gofrestru |
| C19/0171/16/LL | 14, Tan y Bwlch, Mynydd Llandygai Addasu modurdy i fod yn anecs nain Penderfyniad: Caniatawyd gydag amodau |
| C19/0244/16/LL | Tyddyn y Felin, Felin Hen Road, Estyniad a newidiadau Penderfyniad: Cais wedi'i gofrestru |

C19/0226/16/LL

Moelyci, Felin Hen Road
Codi stabl / cysgodfan mulod, rhodfa a
storfa sail (cais ol-weithredol)
Penderfyniad: Caniatawyd gydag
amodau

C19/0236/16/LL

Zip World, Chwarel y Penrhyn
Newid defnydd tir ar gyfer
gweithgareddau cartio gyfochrog a'r
ffordd bresennol ynghyd a chodi
clawdd gwahanu
Penderfyniad: Cais wedi'i gofrestru

12. Ceisiadau Cynllunio

C19/0370/16/LL

5 Ffrwd Galed, Tregarth
Codi modurdy / storfa
Penderfyniad: Cefnogi, ddim yn
amharu ar tirlun yr ardal.

13. Unrhyw fater brys arall

Dim.